DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Practis Deintyddol Ellen Davies

Dyddiad yr Arolygiad: 27 Hydref 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Ionawr 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-8415-3


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Cyd-destun .......... 3
3. Crynodeb .......... 4
4. Findings .......... 5

    Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

    Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

    Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 14

5. Y Camau Nesaf .......... 16
6. Methodoleg .......... 17

    Atodiad A .......... 19

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Gwnaeth AGIC gynnal arolygiad o Bractis Deintyddol Ellen Davies, 4a Barons Close, East Street, Llanilltud Fawr, CF61 1XY, ar 27 Hydref 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Ellen Davies yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Ellen Davies yn darparu gwasanaethau i gleifion ardal Llanilltud Fawr ym Mro Morgannwg. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Practis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG, fel ei gilydd, yw Practis Deintyddol Ellen Davies.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, un nyrs ddeintyddol a derbynnydd/rheolwr y practis.

Busnes preifat yw Practis Deintyddol Ellen Davies.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Ellen Davies yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd systemau ar waith i gasglu adborth, sylwadau a chwynion y cleifion.
- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent yn ymddangos yn lân

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Gwella'r trefniadau ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM)
- Gwella'r prosesau cadw cofnodion, gan gynnwys deintyddion i lofnodi'r hanesion meddygol, cadw rhagor o fanylion am archwiliadau meinwe meddal a chofnodi'r cyfiawnhad dros archwiliadau pelydr-X yng nghofnodion y cleifion
- Mae'n rhaid diweddaru'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd a chwblhau'r holl adrannau
- Mae angen cynnal adolygiad o hyfforddiant y staff i sicrhau bod pawb yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth briodol a'u bod yn gymwys i ymgymryd â'u swyddi a'u cyfrifoldebau.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd gan y practis systemau ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion ac roedd y rhain yn cael eu defnyddio i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom argymell y dylai'r practis arddangos arwyddion clir yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr bod camerâu cylch cyfyng (CCTV) ar waith.Yn ogystal, dylai poster y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Egwyddor 9) gael ei arddangos i gyfleu'r safonau y gall cleifion eu disgwyl gan eu deintydd.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, i gael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Fodd bynnag, ni ddaeth unrhyw ymatebion i law AGIC[1]. Defnyddiwyd holiaduron cleifion y practis ei hun felly i gasglu adborth cleifion.

Gofal gydag urddas

Roeddem o'r farn bod y staff yn broffesiynol ac yn gyfeillgar, ac fe'u clywsom yn bod yn gwrtais ac yn foesgar tuag at gleifion. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd holiadur blynyddol y practis yn gadarnhaol.

Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion pe bai deintydd ar ei hôl hi. Byddent yn cynnig gwneud trefniadau amgen yn ôl y gofyn.

Roedd rhif ffôn cyswllt brys at ddefnydd cleifion wedi'i arddangos ar ddrws y practis deintyddol. Dywedwyd wrthym fod y rhif cyswllt y gallai'r cleifion ei ffonio

[1]Cafodd holiaduron cleifion wedi'u cwblhau eu cyflwyno i AGIC ar ôl cyflwyno'r adroddiad i'r practis, er mwyn gwirio bod yr adroddiad hwnnw yn fanwl gywir. Cafodd 11 holiadur eu cwblhau ac roedd pob un o'r ymatebion hyn yn gytûn bod tîm y practis yn groesawgar, bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth a'u bod yn fodlon ar y gwasanaeth yn y practis hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gwybod sut i gyflwyno cwyn a sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau arferol.

mewn argyfwng yn cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis hefyd, fel bod cleifion yn gallu cael gofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau.

Cadw’n iach

Roedd gwybodaeth am hybu iechyd ar gael yn y man aros.  Roedd ystod y taflenni gwybodaeth i gleifion yn ymwneud â gwahanol fathau o driniaethau a gofal ataliol yn enghraifft o arfer da.  Dylai'r practis ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion, (megis trwy ddarparu gwybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg). Gellid asesu’r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion.

Nodwyd bod yr arddangosiadau iechyd y geg gan y deintydd i'r cleifion yn enghraifft o arfer da, yn absenoldeb hylenydd.  Roedd yr arddangosiadau hyn yn dangos i gleifion sut i frwsio eu dannedd a sut i ddefnyddio edau dannedd i sicrhau bod cleifion yn gofalu am iechyd y geg mewn modd cynhwysfawr a chyson.

Roedd camerâu cylch cyfyng ar waith mewn rhai mannau o fewn y practis, gan wylio'r fynedfa lawr grisiau, yr ystafell aros a'r dderbynfa i fyny'r grisiau yn benodol.  Er bod nodyn wedi'i osod ar ddrws y dderbynfa yn hysbysu cleifion mai dyma'r sefyllfa, gwnaethom argymell y dylid arddangos hysbysiad mwy yn rhoi gwybod i gleifion bod camerâu cylch cyfyng ar waith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i hysbysiadau'n rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr bod camerâu cylch cyfyng ar waith gael eu harddangos yn glir.***

Roedd arwydd 'dim ysmygu' i'w weld ar ddrws y fynedfa.

Roedd y practis yn defnyddio holiaduron blynyddol a ffurflenni adborth/awgrymiadau cyffredinol i gasglu barn cleifion.  Hyd yn hyn, ni ddaeth unrhyw sylwadau i law drwy gyfrwng y ffurflenni adborth cyffredinol. Cwblhawyd yr holiadur blynyddol i gleifion ym mis Chwefror 2016.  Roedd y staff wedi adolygu'r ymatebion ac wedi nodi camau gweithredu yn sgil hynny. Roedd newidiadau wedi'u gwneud yn y practis o ganlyniad i’r ymatebion. Gosodwyd canllaw ychwanegol ar risiau'r fynedfa, yn sgil awgrym yn deillio o adborth y cleifion.  Awgrymwyd i'r staff y dylid cyfathrebu'r camau gweithredu a'r canlyniadau gyda'r cleifion, i ddangos dylanwad eu hadborth wrth greu newid.

Gofal unigol

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith.  Roedd posteri cwynion wedi'u harddangos yn y man aros. Roedd y posteri yn ymwneud â

chwynion am wasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG. Roedd cyfeiriad AGIC yn anghywir ar y poster yn ymwneud â chwynion am wasanaethau preifat. Gwnaethom ofyn i'r staff ei gywiro. Roedd system ar gyfer cofnodi a monitro cwynion ar waith. Fodd bynnag, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion.

Roedd blwch sylwadau wedi'i leoli yn y dderbynfa er mwyn casglu pryderon anffurfiol y cleifion.

Dywedwyd wrthym y cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd ac fe wnaethom edrych ar gofnodion y cyfarfod tîm diwethaf, a oedd yn rhoi eglurder i'r darllenydd o ran y materion a drafodwyd.

Roedd mynediad i'r practis ar y llawr cyntaf, gan ei wneud yn anaddas i bobl sydd ag anawsterau symudedd. Dywedodd y staff wrthym fod y camera cylch cyfyng sydd ar waith yn y man hwn o gymorth i'r staff fedru helpu cleifion sy'n cyrraedd gyda phram/cadair wthio.

Roedd y dderbynfa/man aros o gynllun agored. Dywedodd y staff wrthym y cynhaliwyd sgyrsiau preifat mewn ystafell i sicrhau bod preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd yn cael eu cynnal. Dywedodd staff y dderbynfa wrthym eu bod yn gofyn am wybodaeth gan gleifion yn hytrach na datgan gwybodaeth bersonol yn ystod sgyrsiau dros y ffôn er mwyn sicrhau bod preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion yn cael eu cynnal.

Argymhellwyd y dylai'r practis arddangos poster y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Egwyddor 9) y mae pob gweithiwr proffesiynol gofal deintyddol wedi'u cofrestru i'w ddilyn. Byddai'r poster yn dangos i'r cyhoedd pa safonau y mae'n rhaid i'w deintydd eu dilyn er mwyn cynnal ei gofrestriad.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai poster y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Egwyddor 9) gael ei arddangos mewn man cyhoeddus i ddangos yn glir i gleifion ac ymwelwyr pa safonau y gellir eu disgwyl oddi wrth y deintydd a'r tîm deintyddol.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.**

**Gwnaethom nodi rhai gwelliannau mewn perthynas â'r broses dadheintio/rheoli heintiau a fyddai'n sicrhau bod canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cael eu bodloni'n llawn.**

**Yn ogystal, gwnaethom argymell y dylid gwella'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd. Mae angen trefnu a rhoi hyfforddiant i'r staff o fewn y meysydd a nodwyd yn yr adroddiad ac mae angen gwella rhai agweddau ar gofnodion cleifion.**

<u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi'u cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchid gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio mewn cwpwrdd cloadwy wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractio. Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Disgrifiwyd y trefniadau a oedd ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus (domestig).

Roedd adeilad y practis yn amlwg wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Fe welsom fod pob man yn lân, yn daclus a heb unrhyw beryglon amlwg. Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol fannau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hwn wedi cael ei gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

*Rheoli heintiau*

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a adwaenir hefyd fel dadheintio). Roedd y broses hon yn ymddangos yn foddhaol ar sail ein harsylwadau. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol

- Cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinciau penodol i olchi dwylo
- Cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio’r offer mewn cyflwr da yn ôl pob golwg
- Offer deintyddol yn cael ei storio'n briodol ac yn cael ei ddyddio wrth gael ei sterileiddio.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi'u cwblhau a bod yr holl gamau gweithredu a gofnodwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Asesiad Risg, dyddiedig Gorffennaf 2015, yn wyrdd (gan ddynodi iddynt gael eu cwblhau). Argymhellir defnyddio dull archwilio sy'n gydnaws â chanllawiau Memorandwm Iechyd Technegol Cymru[2] 01-05. Mae hyn yn sicrhau bod archwiliadau yn ymdrin â'r meysydd hynny sy'n benodol i'r canllawiau a ddefnyddir yng Nghymru.

Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio wedi cael eu cadw'n gyfredol. Roedd hyn yn cynnwys profi dyddiol. Roedd data'r awtoclaf[3] yn cael ei gofnodi ar gerdyn SD (Secure Digital) ond nid oedd y data o’r cerdyn wedi'i argraffu. Argymhellir y dylid lawrlwytho ac argraffu’r data a gofnodir ar y cerdyn SD i brofi a gwirio perfformiad yr offer.

Ar adeg ein hymweliad nid oedd yn glir beth oedd y gyfradd waith glân/budr o fewn yr ystafell ddadheintio. Cadarnhaodd trafodaethau â staff fod saethau ac arwyddion wedi'u diddymu yn ddiweddar. Gwnaethom argymell y dylid ail-osod y rhain er mwyn dangos yn glir beth yw'r gyfradd waith glân/budr, er mwyn helpu aelodau'r tîm staff.

Yn ogystal, dylid ystyried llif yr aer yn yr ystafell. Ar adeg ein hymweliad roedd dwy ffenestr yn yr ystafell, un ymhob pen iddi, gan alluogi i'r aer symud rhyw dipyn o fewn yr ystafell. Yr arfer orau fyddai i'r ystafell gael system awyru

---

[2] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[3]Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

bwrpasol. Fodd bynnag, mae angen ystyried y mater hwn yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Amodau amgylcheddol, Pennod 6)

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis wella'r trefniadau ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 gan sicrhau bod data cerdyn SD yr awtoclaf yn cael ei lawrlwytho, ei gadw a'i ddadansoddi i wirio perfformiad yr offer.***

***Mae angen ail-osod arwyddion y gyfradd waith glân/budr i nodi llif mannau glân a budr yn glir.***

*Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys (cleifion), ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio.  Fodd bynnag, gwelsom fod y masg wyneb brys yn fudr a heb gael ei selio.  Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd.

Gwelwyd bod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw'n briodol er mwyn sicrhau mynediad rhwydd atynt mewn achos brys. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod cyffuriau a oedd wedi mynd heibio'r dyddiad dod i ben yn cael eu newid yn brydlon. Fodd bynnag, ar adeg ein hymweliad gwelsom fod dyddiad ambell i ddeunydd adferol (past ledermix) wedi mynd heibio'r dyddiad dod i ben.

Er bod y staff yn gwybod pwy oedd y swyddog cymorth cyntaf dynodedig, nid oedd arwydd gweledol i gadarnhau i'r cyhoedd pwy oedd yr unigolyn hwnnw. Hefyd, mae angen cael gafael ar y dystysgrif cymorth cyntaf a chadw'r dyddiad arni yn gyfredol.  Roedd nifer o eitemau a oedd â dyddiad dod i ben yn 2011 ymysg cynnwys y pecyn cymorth cyntaf, gan gynnwys rhwymynnau a menig. Mae angen adolygu'r pecyn cymorth cyntaf yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod dyddiadau'r cynnwys o fewn y pecyn yn gyfredol ac yn addas i'w defnyddio.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen adolygu'r offer dadebru i sicrhau bod masgiau wyneb wedi'u gorchuddio a'u bod yn lân cyn y gellir eu defnyddio.***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod manylion y swyddog cymorth cyntaf dynodedig i'w weld yn glir a bod tystysgrifau'n cael eu derbyn a'u cadw.***

***Mae angen gwirio cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys, ynghyd â'r pecyn cymorth cyntaf, yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu dyddiadau yn gyfredol ac yn addas i'w defnyddio.***

*Diogelu*

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hybu a diogelu llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisïau diogelu ar gyfer gwarchod plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Ar adeg yr ymweliad, yn wahanol i'r polisi diogelu oedolion, roedd dyddiad y fersiwn gyfredol a dyddiad adolygu wedi'u nodi yn achos y polisi amddiffyn plant. Argymhellwyd bod dyddiad y fersiwn gyfredol a dyddiad adolygu pob polisi yn cael eu nodi ar wyneb y ddogfen. Canfuom hefyd fod angen i aelod o staff newydd gael hyfforddiant gwarchod plant ac oedolion sy'n agored i niwed a bod angen i un aelod arall o staff gael cwrs diweddaru yn y maes.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff fynegi unrhyw bryderon ynghylch darparu gofal i gleifion. Dywedodd tîm y practis wrthym hefyd fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys cael eu clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

*Offer radiograffeg*

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu’n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd rhif cyfresol y peiriannau ar y tystysgrifau oedd i'w gweld yn cyd-fynd â'r anfonebau/datganiadau gwirio a gedwir yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd. Mae angen cadarnhau pa beiriant (336 neu 480) sy'n cael ei ddefnyddio, gan newid cofnod y ffeil yn sgil hynny.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen diweddaru tystysgrifau offer a'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd i sicrhau bod rhifau cyfresol yr offer yn gywir.***

Wrth adolygu'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, gwelsom fod dwy fersiwn ohoni ar gael. Roedd hyn yn peri dryswch gan fod enghreifftiau o ddyblygu wedi'u gweld wrth asesu'r ddwy ffeil. Argymhellwyd yn ystod yr ymweliad y dylai un ffeil, gynhwysfawr fod ar waith. Gwnaethom nodi bod rhai adrannau o fewn y ffeil, o ran y rhestr eitemau a'r cofnod diffygion yn benodol, yn anghyflawn. Mae angen adolygu'r ffeil i sicrhau ei bod yn gyfredol ac wedi'i chwblhau yn gynhwysfawr.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen diweddaru'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd i sicrhau bod yr holl adrannau wedi'u cwblhau, gan gynnwys y rhestr eitemau a'r cofnod diffygion.***

Canfuom fod y deintydd sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[4] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Fodd bynnag, nid oedd y nyrs ddeintyddol wedi cwblhau hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r nyrs ddeintyddol gwblhau hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio perthnasol.***

Roedd gan y practis system sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod ansawdd delweddau pelydr-X cleifion yn cael eu graddio a'u cofnodi. Nid oedd yr archwiliad sicrhau ansawdd ar gael ar adeg ein hymweliad. Yn ogystal, nid oedd unrhyw adolygiad ffurfiol o'r archwiliad i brofi bod unrhyw un o'r camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith. Argymhellir y dylid manteisio ar archwiliadau fel modd o wneud gwelliannau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid defnyddio'r archwiliadau pelydr-X a wneir fel modd o yrru gwelliant parhaus.***

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad yw newidiadau cemegol (newidiadau sydd ynghlwm â datblygu a mireinio delweddau pelydr-X) yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, trafodwyd hyn a'i gywiro yn ystod yr ymweliad.

Gofal effeithiol

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o bump o gofnodion cleifion y practis. Ar y cyfan, canfuom fod y cofnodion yn briodol ac yn ddigon manwl gyda gwybodaeth ynghylch triniaeth pob claf. Fodd bynnag, gwelsom rai problemau a oedd angen sylw, gan gynnwys:

[4] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

- Rhaid i'r deintydd gyd-lofnodi hanes meddygol fel rhan o’r drefn yn unol â Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Safon 4)
- Mae angen diweddaru hanesion meddygol ar ôl pob apwyntiad
- Mae angen rhagor o fanylion o ran cofnodi archwiliadau meinwe meddal
- Mae angen nodi'r cyfiawnhad dros ymgymryd â sganiau radiograffeg

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen gwella cofnodion cleifion drwy sicrhau:***

- ***Bod holl hanesion meddygol cychwynnol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd***
- ***Bod hanesion meddygol yn cael eu diweddaru yn ystod pob apwyntiad***
- ***Bod gwybodaeth fanwl yn cael ei chofnodi yn achos archwiliadau meinwe meddal***
- ***Bod y penderfyniad i gymryd sganiau pelydr-X yn cael ei gyfiawnhau a'i gofnodi***

Mae cleifion yn elwa ar dderbyn gofal gan bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.  Gwelsom fod y practis yn ymgymryd â pheth gweithgarwch archwilio perthnasol yn fewnol, gan gynnwys rheoli heintiau.

Dywedwyd wrthym fod cysylltiadau â phractisau deintyddol lleol eraill, lle bo adolygiad gan gynghreiriaid yn mynd rhagddynt.  Mae hyn yn arfer da sy'n cyfrannu at ansawdd y gofal a ddarperir.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn.Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth.Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.**

Bu'r adeilad presennol yn gartref i'r practis ers ei sefydlu ym 1960, a daeth y practis i feddiant y perchennog presennol ym 1996.

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a bod ystod o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd yn sylfaen iddo, sy'n sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu i gleifion mewn modd diogel a phrydlon. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy ystyried amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau ag aelodau o'r tîm deintyddol.

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd yn ymddangos yn fodlon wrth gyflawni eu swyddogaethau. Gwelsom fod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu, a'u bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis.

Roedd staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol i'w gwaith a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, gwelsom rai bylchau y mae angen eu llenwi ar unwaith. Roedd angen i'r derbynnydd gael yr hyfforddiant diweddaraf ar amddiffyn plant. Newydd ddechrau yn ei swydd oedd y nyrs ddeintyddol, ond roedd angen i'r unigolyn dderbyn hyfforddiant mewn nifer o feysydd. Yr hyfforddiant dan sylw yw Hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a hyfforddiant amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystysgrif gyfredol y swyddog cymorth cyntaf a gwnaethom argymell y dylid ei chael cyn gynted ag y bo modd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen adolygu holl anghenion hyfforddi'r staff a'r cyrsiau a fynychwyd i sicrhau bod staff yn gymwys i roi gofal a thriniaeth ddiogel ac effeithiol i gleifion a'u bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i wneud hynny.***

Roedd system ar waith i staff gael arfarniad blynyddol. Roedd hyn yn sicrhau bod cyfleoedd i'r staff fyfyrio ar eu gwaith a nodi unrhyw hyfforddiant perthnasol y gallent fod ei angen. Cynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd, fe'u cofnodir, a gweithredu unrhyw gamau.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff perthnasol i gyd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd y deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd ei dystysgrif gofrestru wedi'i harddangos yn y practis.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd wedi'u sefydlu a gweld bod rhai o'r rhain ac arnynt ddydiad y fersiwn ynghyd â dyddiad adolygu ond nid rhai eraill. Mae'n arfer da sicrhau bod dyddiad y fersiwn a dyddiad adolygu yn cael eu cynnwys ar bob polisi. Rhoddwyd sicrwydd inni fod unrhyw newidiadau i bolisïau'n cael eu cyfleu i'r staff.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn gyson â'i gilydd, gan ychwanegu dyddiad y fersiwn a'r dyddiad adolygu at yr holl ddogfennau polisïau a gweithdrefnau.***

.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Ellen Davies yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[5] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[6] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

---

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Ellen Davies

## Dyddiad yr Arolygiad: 27 Hydref 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | ***Mae angen i hysbysiadau sy'n rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr bod camerâu cylch cyfyng ar waith gael eu harddangos yn glir.*** | Safon 2.1 | Arddangosir arwydd camerâu cylch cyfyng (CCTV) ar y drws ffrynt ac mae arwydd bob amser wedi cael ei arddangos ar yr ail ddrws - a hynny ar yr un uchder ag wyneb. Darperir yr arwyddion hyn gan y cwmni camerâu cylch cyfyng ac maent yn cydymffurfio â deddfwriaeth o ran maint ac o ran eu hargraffu. | Ellen Davies | Cwblhawyd |
| 7 | ***Dylai poster y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Egwyddor 9) gael ei arddangos mewn man cyhoeddus i*** | Safon 1.1 | Caiff poster ei arddangos ym man y dderbynfa erbyn hyn. | Ellen Davies | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***ddangos yn glir i gleifion ac ymwelwyr pa safonau y gellir eu disgwyl oddi wrth y deintydd a'r tîm deintyddol.***<br><br>*Safonau*'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, 1-9 | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 10 | ***Rhaid i'r practis wella'r trefniadau ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 gan sicrhau bod data cerdyn SD yr awtoclaf yn cael ei lawrlwytho, ei gadw a'i ddadansoddi i wirio perfformiad yr offer.*** | Safon 2.4<br><br>Canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Pennod 11 | Caiff data cerdyn SD yr awtoclaf ei lawrlwytho, ei gadw a'i ddadansoddi bob wythnos. Mae'r system hon ar waith ers 2014. | Ellen Davies | Cwblhawyd |
| 10 | ***Mae angen ail-osod arwyddion y gyfradd waith glân/budr i nodi llif mannau glân a budr yn glir.*** | Safon 2.1 a 2.4<br><br>Canllawiau Memorandw | Mae ein harwyddion llif gwaith disgrifiadol rhwng y peiriant uwchsonig, y sinc, yr awtoclaf a'r man bagio bellach yn cynnwys | Ellen Davies | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | m Technegol Iechyd Cymru 01-05, Pennod 5 | saethau yn dynodi'r llif rhwng mannau glân a budr. | | |
| 10 | ***Mae angen adolygu'r offer dadebru i sicrhau bod masgiau wyneb wedi'u gorchuddio a'u bod yn lân cyn y gellir eu defnyddio.*** | Safon 2.9 | Mae hyn bellach ar waith ac yn rhan o'n gwaith gwirio argyfyngau meddygol misol. | Ellen Davies | Cwblhawyd |
| 10 | ***Rhaid i'r practis sicrhau bod manylion y swyddog cymorth cyntaf dynodedig i'w weld yn glir a bod tystysgrifau’n cael eu derbyn a'u cadw.***<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6.6* | Safon 2.1 | Ni fu modd imi ddod o hyd i gwrs Cymorth Cyntaf nad oedd yn golygu mynychu cwrs ymarferol tri diwrnod. Fe wnes i ffonio Kath Liddington a gofyn am gwrs Cymorth Cyntaf gan ei fod yn elfen orfodol o ofal cleifion bellach (Safon 6.6.). "Nac ydy" meddai Kath ac fe holais eto gan ei fod yn ofyniad penodol. Mae hi bellach wedi anfon manylion cwrs a drefnwyd ganddi i'm sylw. Mae'r tri aelod staff dan sylw bellach wedi cadw eu lle ar y cwrs hwn, sydd i'w gynnal ar 5 Ebrill 2017. | Ellen Davies | 05/04/2017 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | ***Mae angen gwirio cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys, ynghyd â'r pecyn cymorth cyntaf, yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu dyddiadau yn gyfredol ac yn addas i'w defnyddio.*** | Safon 2.1 | Mae'r holl gyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys wedi'u gwrio gennym erioed ac mae eu dyddiadau bob amser yn gyfredol.<br>Mae rhwymynnau â dyddiad cyfredol bellach i'w cael yn y bocs Cymorth Cyntaf ac mae'r rhain hefyd yn cael eu gwirio fel rhan o'n gwiriad argyfyngau meddygol misol. | Ellen Davies | Cwblhawyd |
| 11 | ***Mae angen diweddaru tystysgrifau offer a'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd i sicrhau bod rhifau cyfresol yr offer yn gywir.*** | Safon 2.9 | Mae'r rhif cyfresol cywir yr un fath â'r rhif ar y dystysgrif cynnal a chadw a'n tystysgrif gwirio ymbelydredd. Fodd bynnag, wrth wneud gwaith gwasanaethu ar 15 Ebrill 2016, gwnaeth peiriannydd Reliatec nodi rhif anghywir blaen y tiwb, yn hytrach na rhif y peiriant, ar ddamwain. Mae Reliatec wedi cael eu hysbysu ac wedi diweddaru eu cofnodion yn sgil hynny. | Ellen Davies | Cwblhawyd |
| 11 | ***Mae angen diweddaru'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd i sicrhau bod yr holl adrannau*** | Safon 2.9 a 3.4 | Mae'r holl ymweliadau i wneud gwaith gwasanaethu wedi'u cadw gyda'i gilydd yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd. Maent bellach | Ellen Davies | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***wedi'u cwblhau'n briodol, gan gynnwys y rhestr eitemau a'r cofnod diffygion.*** | | wedi cael eu gwahanu a'u cofnodi fel ymweliadau gwasanaethu ac ymweliadau cywiro diffygion. | | |
| 12 | ***Dylai'r nyrs ddeintyddol gwblhau hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio perthnasol.***<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6.6* | Safon 7.1 | Dechreuodd ein nyrs ddeintyddol yn ei gwaith ar 3 Hydref 2016. Trefnwyd iddi fynd ar gwrs ymbelydredd ïoneiddio ar 17 Chwefror 2017, sef y cwrs cyntaf sydd ar gael. | Ellen Davies | 17/02/2017 |
| 12 | ***Dylid defnyddio archwiliadau a gynhelir fel dulliau i sicrhau gwella parhaus.*** | Safon 3.4 | Rydym bellach wedi ychwanegu elfen ddadansoddol at bob archwiliad. Fodd bynnag, yn achos pob archwiliad lle bo problem wedi dod i'r amlwg, aed i'r afael â'r broblem honno ar ddiwedd yr wythnos archwilio. | Ellen Davies | Cwblhawyd |
| 12 | ***Mae angen gwella cofnodion cleifion drwy sicrhau:***<br><br>• ***Bod holl hanesion meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y*** | Safon 3.5 | Mae'r holl hanesion meddygol wedi cael eu hysgrifennu gan y deintydd ar y cyd â'r claf ac yna eu cydlofnodi gan y claf ar bob achlysur. Fe'u llofnodir gan y deintydd bellach. | Ellen Davies | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***deintydd***<br>• ***Bod hanesion meddygol yn cael eu diweddaru yn ystod pob apwyntiad***<br>• ***Bod gwybodaeth fanwl yn cael ei chofnodi yn achos archwiliadau meinwe meddal***<br>• ***Bod cyfiawnhad i gymryd sganiau pelydr-X yn cael ei gofnodi***<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1* | | Caiff diweddariadau eu nodi bellach<br>Mae rhagor o fanylion ynghlwm â manylion archwiliadau meinwe meddal erbyn hyn.<br>Rhoddir cyfiawnhad bob amser.<br>O ran yr un achos penodol hwn, dywed ein cofnodion: "Patient complained of swelling buccal to LR6. On examination gingivae at gingival level, bubbly red and swollen and pocket (buccal) 7mm, 1 xray."<br>Nid wyf yn siŵr pa gyfiawnhad pellach y gallwn i fod wedi'i ysgrifennu yn yr achos hwn. | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 14 | ***Mae angen adolygu holl anghenion hyfforddi'r staff a'r cyrsiau a fynychwyd i sicrhau bod staff yn gymwys i roi gofal a thriniaeth ddiogel ac effeithiol i gleifion a'u bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i wneud hynny.*** | Safon 7.1 | Mae llefydd wedi'u cadw i'r holl staff ar gwrs Amddiffyn Plant ar 6 Rhagfyr 2016.<br>Cwrs ymbelydredd ioneiddio ar gyfer y nyrs ddeintyddol ar 17 Chwefror 2017 (y cwrs cynharaf oedd ar gael ers iddi ddechrau gyda ni ar 3 Hydref 2016)<br>Mae Ellen, y mae ei statws ymbelydredd ioneiddio yn gyfredol nes 15 Gorffennaf 2018, yn mynychu cwrs ymbelydredd ioneiddio ar 27 Ionawr 2017 fel bod y staff i gyd yn mynychu ar yr un pryd. | Ellen Davies | 06/12/2016<br>17/02/2017<br>27/01/2017 |
| 15 | ***Mae angen i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn gyson â'i gilydd, gan ychwanegu dyddiad y fersiwn a'r dyddiad adolygu at yr holl ddogfennau polisïau a gweithdrefnau.*** | Safon 3.4 | Mae dyddiadau a dyddiadau adolygu wedi'u hychwanegu at yr holl bolisïau a gweithdrefnau. | Ellen Davies | Cwblhawyd |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Ellen Davies.........................................................................................**

**Teitl:** **Deintydd a Pherchennog y Practis..................................................**

**Dyddiad:** **30/11/16.................................................................................................**